Bwrdd Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau – Nodyn Crynhoi Cyfarfod – 27 Ionawr 2009

Cyfarwyddeb Wasanaethau
Ar 28 Rhagfyr 2009, byddai'r DU yn gweithredu'r Gyfarwyddeb Wasanaethau. O Fawrth i Ragfyr, byddai Tŷ'r Cwmnïau yn cymryd rhan mewn prosiect arbrawf.

Cynllun Busnes 2009/10
Trafododd y Bwrdd y cyd-destun i gynllun busnes y flwyddyn ariannol nesaf. Yn yr hinsawdd economaidd gyfredol, roedd angen i Dŷ'r Cwmnïau amlygu'r cyfraniad y byddai'n ei wneud at helpu cwmnïau drwy'r amserau. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar ffyrdd effeithlon o weithredu ac ysgafnhau'r baich rheoleiddiol a rown ar gwmnïau.

Gorchymyn Ffioedd 2009
Cytunodd y Bwrdd fod angen gwybodaeth bellach cyn bod modd gwneud penderfyniad terfynol ynglŷn â statws llunio gorchymyn ffioedd newydd.

Rhaglen y Ddeddf Cwmnïau - Diweddariad
Statws y rhaglen o hyd, at ei gilydd, oedd Melyn / Gwyrdd.

Trawsffurfio ac Aildrefnu Rhaglenni (STAR) - Diweddariad
Cyflwynwyd i'r Bwrdd adroddiad cynnydd ynglŷn â gwahanol elfennau'r rhaglen.

Adolygiad o Risgiau Difrifol y Bwrdd Gweithredol
Adolygwyd y gofrestr risgiau gyfredol a chytunodd yr aelodau fod sôn digonol am bob rhyw risg.

Diweddariad Bwrdd Busnes yr Asiantaeth (ABB) a Thaflen Sgorio'r Maes Busnes
Cyflwynwyd i'r Bwrdd ddiweddariad misol yr ABB.

Paratoi at Gyfarfod y Bwrdd Llywio ar 23 Chwefror
Y pynciau i'w trafod oedd Cynllun Busnes 2009/10, Adroddiad Blynyddol 2008/09 (trafod yr oslef, y thema, yr arddull, ac ati) ynghyd ag eitem yn ymwneud â'r Strategaeth Cwsmeriaid a Chynhyrchion.

Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau
Ionawr 2009